YR ANGOR
PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION
'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'

CYF. 42. RHIF 6 | TACHWEDD 2020 | 50c

# Llawenydd Cymry'r Glannau cyn y feirws ofnadwy



*Sian Arwel Davies y tu ôl i'r Pedwar Gwron - sef Hefin Rees, QC, Harpenden; Eryl Wyn Jones, Woolton a'r Parchedigion Robert Parry a D. B. Rees*

*Yn y llun isod – o'r chwith i'r dde Hilda a Brian Thomas, Mossley Hill, Dr Arthur ac Ann Thomas, Allerton - ac yn gwylio y ffotograffydd Devida Broadbent, Roby*





*Parchedig Robert Parry yn sgwrsio gyda Mrs Mair Rees Jones a Mrs Phyllis O'Neill, Seion, Penbedw*



*O'r chwith i'r dde – Carys Jones (Wavertree), Lilian Coulthard (Aigburth) a Gwenfyl Bain*

Cysylltwch â'r

YR ANGOR
PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION
'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'

garthdriveben@gmail.com

Golygyddol

# CANLYNIADAU COVID-19
## gan D. Ben Rees

Daeth hi unwaith yn rhagor yn gyfnod o hunan ynysu gan fod y feirws wedi cael cyfle newydd wrth i'r bobl ifainc ddychwelyd i'r Prifysgolion a'r Colegau, ac yn Glasgow yn ei hafiaith, anghofiwyd y rheolau o gadw draw oddi wrth ei gilydd. Ymledodd y feirws, y Satan drwg hwn, yn ddistaw a dirgel gan heintio cannoedd ohonynt. Nid oes neb yn rhydd ohono. Heintiwyd dau o'r pymtheg o chwaraewyr pêl-droed Leyton Orient, a dyna a glywn o awr i awr.

Er hynny y mae rhai o'r cyfathrebwyr yn sôn am ganlyniadau Covid-19, ac nid oes neb ohonom yn gwybod, ond o leiaf ni fydd bywyd yr un fath am ddegawd a mwy. Canlyniad pennaf ydyw'r ddyled y mae'r Deyrnas Unedig ynddi. Disgwylid benthyca 55 biliwn o bunnoedd fel gwlad yn 2020, ond eisoes benthyciodd y Canghellor 355 biliwn hyd yn hyn, swm enfawr a gymer flynyddoedd i'w dalu yn ôl. Ond y mae canlyniad gwleidyddol arall, sef darnio y Deyrnas Unedig yn dair gwlad annibynnol. Mae'n amlwg fod yr Alban yn aeddfed i annibyniaeth a phan ddaw y refferendwm bydd yr Alban yn gadael y Deyrnas Unedig a bydd hi'n ofynnol mynd ati i greu perthynas newydd gyda gweddill y Deyrnas. Mae'n edrych yn debyg bod digon o fwyafrif yng Nogledd Iwerddon i ystyried uno y wlad yn un, Gogledd a De. Bydd hynny yn gadael Cymru a Lloegr i gydfyw a chydweithio am gyfnod, ond yng Nghymru y mae'r sefyllfa yn raddol newid. Credir bellach fod Mark Drakeford a Vaughan Gething yn llawer gwell arweinwyr na Boris Johnson a'r Gweinidog Iechyd.

Cyhoeddwyd ar 25 Medi gan Blaid Cymru adroddiad o Gomisiwn Annibynnol o dan gadeiryddiaeth Elfyn Llwyd yn awgrymu y dylai'r Senedd yng Nghaerdydd roddi cyfle i bobl Cymru fynegi barn ar hunan lywodraeth cyn cynnal refferendwm ar y cwestiwn. Dywed yr Adroddiad y bydd gan Gymru Rydd fel yr Alban opsiwn i ail sefydlu perthynas gydag Ewrop. Dywed Cadeirydd y Comisiwn fod cymaint o bobl wedi dod i'r casgliad y byddai Senedd gyflawn yng Nghaerdydd gyda 90 o aelodau yn lle y 60 presennol yn nodi amcanu ato. Credant mae'r nod yw annibyniaeth llwyr. Hwn yw'r flaenoriaeth i bob Cymro pa blaid bynnag y perthyna iddi. Dadleua y Comisiwn am ddyfodol economaidd Cymru, a'i bod yn methu fel gwlad heddiw am fod pobl Gwalia yn llwyr ddibynnol am gynlluniau ar y sector ariannol a ganolwyd yn Llundain. Mae gan Iwerddon lawer iawn i ddysgu i Gymru. Ar un adeg yr oedd hithau mor dlawd ag yw Cymru heddiw, ond gwyddom fod perthyn i'r Undeb Ewropeaidd wedi gwneud hi yn 'deigr Celtaidd'. Dylifodd cwmnïau fel Amazon i gael troedle yn Nulyn, a chwmnïau lu o'r Unol Daleithiau, gan atgyfnerthu yr economi. Dibynna Iwerddon gryn lawer o ran masnach gyda'r allforio i Brydain ac mae Bregsit yn boen meddwl i'r gwleidyddion.

Deallir eisioes fod y Democratiaid Rhyddfrydol yng Nghymru yn feirniadol o'r Adroddiad pwysig, ond rhaid dweud bod eu cyfraniad hwy hyd yn hyn yn hynod o aneffeithiol. Efallai y gall E. D. Davey roddi dipyn mwy o synnwyr cyffredin iddynt ond fe gawn weld pan ddaw etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai 2021. Nid oes gobaith ganddynt yng Ngheredigion lle mae Elin Jones yn ddiogel tra bydd hi am aros yn y Senedd, a chofier ei bod hi yno oddi ar 1999. Hi yw brenhines Ceredigion, Cadeirydd Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Genedlaethol Tregaron Awst 2021 os caniata Coronafeirws -19 iddi gael ei chynnal. Mae'r Urdd yn ofni na fydd Eisteddfod gyda hwy Mai 2021. Trueni o'r mwyaf. O leiaf mae gennym nod i amcanu ato, a gobeithiaf y gwna y Llywodraeth yng Nghaerdydd yn y flwyddyn 2025 roddi gyfle i'r Cymry fynegi barn os ydynt yn awyddus i gael refferendwm ar yr un llinellau â'r un a gynhelir yn yr Alban yn 2022 mae'n debyg er gwaethaf ystyfnigrwydd Boris. Y mae'r Blaid Genedlaethol yr Alban yn disgwyl y cyfle, eisioes yn siarad amdano, a rhaid cydnabod ei bod yn wrthblaid cystal â Llafur Syr Keir Starmer yn y Tŷ Cyffredin yn San Steffan y dyddiau hyn. Byddai eu colli o'r Tŷ Cyffredin yn ergyd fawr i ddemocratiaeth, dylai Plaid Cymru ddilyn ei esiampl yno fel 'cydwybod effro' y Celtiaid.



*Elin Jones*

## GAIR BYR I'R DARLLENWYR, CYFRANWYR, DOSBARTHWYR A THEULU'R ANGOR

- **Tanysgrifiadau/Rhoddion** – Dyma eitem i godi'n calonnau, ac ym mhob rhifyn cawn golofn haeddiannol o haelionus. Daliwch i gynnal y papur bro unigryw hwn trwy anfon at ein Trysorydd, Roderick Owen, Maeshir, 21 Drennan Road, Allerton, Lerpwl / Liverpool L19 4UA. Bydd eich cyfraniad yn cael ei gydnabod yng Nghornel y Trysorydd yn *Yr Angor.*
- ***Pris Yr Angor.*** Am eleni eto yr un pris. Anhygoel. Dim ond £11.00 trwy'r post, trwy'r capeli a'r cymdeithasau £5. Cyfle i hysbysebu am £2, tudalen gyfan £60, hanner tudalen £30.
- **RHIFYNNAU NESAF YR ANGOR**
- **Rhifyn Rhagfyr 2020/Ionawr 2021** erbyn bore Sul, 1 Tachwedd 2020 – lluniau, adroddiadau, llythyron, cyfarchion, hysbysebion i garthdriveben@gmail.com
- **Rhifyn Chwefror 2021** – erbyn bore Gwener, 1 Ionawr, 2021 i 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl L18 6HW er mwyn ei bostio i'r cysodydd pnawn Sadwrn, Ionawr 2.
- **Rhifyn Mawrth 2021 –** erbyn bore Llun 1 Chwefror 2021, gan yr aiff y cyfan i'n cysodydd am 2 o'r gloch y diwrnod hwnnw.
- **Cofier y wefan –** Liverpool-welsh.co.uk (ewch yno yn gyson, byddwn yn gobeithio gosod mwy o luniau yno yn y dyfodol agos).
- **Croeso – eich llythyron ac ambell erthygl i'r Golygydd cyn 1/11/2020.**

**Daliwch i swatio a darllen Yr Angor**

*Newyddion o*

# LANNAU MERSI A MANCEINION

## Eglwys Bresbyteraidd Bethel, Heathfield Road, Lerpwl

Bu angen gwahodd cwmni o aeiladwyr i edrych ar y tamprwydd a ymddangosodd yn un o waliau y Ganolfan a bellach cwblhawyd y gwaith. Roedd y gost yn £1,500 a diolchir i W. Meirion Evans ac Idris Roberts am oruchwylio'r gwaith nad oedd ond rheidrwydd i'w gyflawni. Y mae'r Coronafeirws -19 yn dal i'n bygwth ac edrychwn ymlaen i gyfres o oedfaon ar y 'Zoom', y gyntaf o dan ofal Dr. D. Ben Rees ar 4 Hydref. Daw y Parch. Robert Parry i'r adwy y Sul canlynol, dyma gyfle da i gyd-addoli. Trefnwyd hyn yn fanwl gan ein harbenigwyr, Mike Farnworth a Dr. John G. Williams ar Sul 27 Medi.

Derbyniodd Mrs Beryl Williams, Gwydrin Road ddamwain a hithau gyda'i phriod wedi mynd am dro i Barc Calderstones. Bu'n rhaid iddi wynebu ar driniaeth lawfeddygol ar ei phenelin a bellach y mae yn cryfhau yn ei chartref.

Bu profedigaethau yn ein plith, gwelwyd yr olaf o deulu James fferm Salisbury, Woolton a fu mor haelionus yn y gorffennol i Weinidogion ac aelodau Capel Heathfield Road yn ymadael â'r fuchedd hon. Bu farw Mrs Mair Grey, Rainford a'i brawd-yng-nghyfraith Donald Miles o fewn pedair awr ar hugain i'w gilydd. Cymerwyd arwyl Donald Miles gan ein Gweinidog Dr. D. Ben Rees yn Amlosgfa Springwood.


Clywsom y newydd da am lwyddiant Tom See, Woolton yn ei radd mewn peirianeg. Cafodd Ddosbarth Cyntaf a gwaith at ei union gan y cwmni a adeiladodd Ysbyty Alder Hey ac sydd wedi cael ei henwi i baratoi Cae pêl-droed Clwb Everton ar lan yr afon Merswy. Da gweld ein hieuenctid yn gwneud yn dda, ac yn lawenydd i'w nain, Nan Hughes Parry, ac i'w fam Eirian a'i phriod a ninnau fel teulu'r capel.

Chwith clywed fod y coronafeirws wedi dod i'n plith yn Lerpwl ac yn gosod cyfrifoldeb mawr ar bawb o bob oedran i gadw'r canllawiau, o olchi dwylo, gwisgo masg, cadw troedfeddi oddi wrth ein gilydd a gweddïo am nerth i ddal y pwysau hyn o hunan ynysu. Diolch am dechnoleg fodern i'n cysuro yn y dyddiau anodd, peryglus, gofidus yr awn drwyddo.

## Eglwys Bethania, Crosby Road South, Waterloo

A ninnau wedi edrych ymlaen i'r Gymanfa Ganu ar Sul 27 Medi fel Dosbarth bu'n rhaid gohirio am flwyddyn o leiaf. Yn y cyfamser pleser i Menna Caton a Elin Bryn Boyd oedd cael ymuno â'r rhai o Bethel ar yr arbrawf o gael oedfa y 'Zoom' y Sul hwnnw. Byddwn yn ymuno â'n cyd-Gristnogion ym Methel o Sul 4 Hydref ymlaen i'r Nadolig gan nad oedd gennym sicrwydd a gawn ein anwyliaid adref atom dros yr Ŵyl. Sonnir y bydd yn rhaid i'r myfyrwyr aros yn eu hostelau dros wyliau'r Nadolig a cholli y cyfle i lawenhau gyda'u teuluoedd.

Clywsom am farwolaeth y cerflunydd enwog o Llanuwchllyn, John Meirion Morris, ffrind mawr i'n Gweinidog Dr Rees. Treuliodd y ddau oriau lawer yng nghwmni ei gilydd a gwyddom mae yng Ngholeg Lerpwl yr hyfforddwyd yr artist athrylithgar. Cydymdeimlwn gyda'i briod Gwawr a'r holl deulu yn y brofedigaeth, ond erys y penddelwau a'r gweithiau eraill o'i eiddo am ganrifoedd i ddod. Dyna yw anfarwoldeb –



*John Meirion Morris*

### Gweledydd
**John Meirion Morris**

Yn fy Nghymru alluog
ar daith hir fy Nhir na nÓg,
mae beirdd trist, mae artistiaid,
lleisiau'r delyn yn un haid;
mae sŵn clêr mewn llawer llys –
ac mae John Meirion Morris.

Mae ei hun, fel saif mynydd;
seren uwch pob seren sydd.
Yno'n frân cydwybod, fry,
yno i'w wlad yn oleudy;
ei ddwylo a'i feddyliau
yn gysur i'r bur hoff bau.

Duwdod o'r hen fyd ydyw,
dan ei fawd daw mwd yn fyw,
a gall, drwy flaen ei gyllell,
weld y boen bu'n hen wlad bell
drwyddi. Clywed Derwyddon
heddiw mae'n gweiddi ym Môn.

Â'i gyllell egyr gelloedd
i olau dydd gwlad a oedd;
daw i ni â'n byd yn ôl
a bydoedd hwnt i'r bydol,
gan fodio, ffurfio'r hen ffydd
yn gof drwy glai ac efydd.

Tir a môr yw dwylo'r dyn,
dwylo sy'n rhaid eu dilyn.
Ac awn ag o, hen ac iau,
i'r tir Tu Hwnt i Eiriau:
tir Dylan, tir di-olau,
tir du, lle bu torri dau.

Tir Cymreig, croesau gweigion,
tywyll, oer ond eto, llon.
Tir y gwir, pentir Gerallt,
hen dir lle 'does neb yn dallt
Lleu na Nudd na llonyddwch
y lleill sy'n gorwedd yn llwch.

Awn ag o, a down i gyd
yn ôl, â'n pennau'n olud,
a'n dirnad yn gadarnach.
Down yn ôl i'n byd yn iach,
yn gall, a thrwy ei gyllell,
yn bobl war, pobl well.

*Meirion MacIntyre Huws*
*Mawrth 2020*

**Taro E-Bost**

***Rhifyn Hydref 2020 o'r Angor***

*Prifysgol Aberystwyth*
*Dydd Iau, Medi 10*

Annwyl Olygydd,
Do fe ddaeth *Yr Angor*, diolch yn fawr i chwi Ben. Llongyfarchiadau ar rifyn difyr. Cofion.

*Bleddyn (Huws)*

---

*Llundain,*
*10 Medi 2020*

Annwyl Ben,
Diolch yn fawr am gopi o'r *Angor* yn ddigidol. Caredig iawn ohonoch. Cymerwch ofal.

*Catrin (Waugh)*

---

*Penrhyncoch, ger Aberystwyth*
*10 Medi 2020*

Annwyl Olygydd,
Diolch yn fawr. Daeth copi trwy'r post y bore 'ma. Da eich bod yn parhau i fedru cyhoeddi.

*Cofion*
*Ceris (Gruffudd)*

*Newyddion o*

# LANNAU MERSI A MANCEINION

## Eglwys Seion, Laird Street, Penbedw

Anfonwn gyfarchion cynnes a'n dymuniadau gorau i ddarllenwyr *Yr Angor* gan obeithio eich bod i gyd yn iach a diogel yn ystod y cyfnod anodd yma sydd wedi dod i'n rhan.

Credaf mai trwy gadw'r rheolau y daw gwellhad ymhen amser, mae'n rhaid bod yn amyneddgar iawn.

Daeth ton o dristwch drosom ni, aelodau Seion, wrth glywed am farwolaeth sydyn ac annisgwyl Terry O'Neill, ein Swyddog ffyddlon a gweithgar a'n organnydd talentog yn Ysbyty Broadgreen Lerpwl, ar ôl trawiad ar ei galon. Roedd pawb yn ei gweld yn anodd credu fod Terry wedi ein gadael mor ddisymwth. Sais oedd Terry ond yn deall pob gair o'r iaith Gymraeg. Roedd yn wr bonheddig, gŵr cwrtais, tawel a diymhongar. Roedd hefyd yn ŵr gwybodus iawn, yn gerddor talentog ac yn ŵr hoffus iawn, roedd pawb yn hoff o Terry. Roedd Terry bob amser yn barod ei gymwynas ac yn ddiamau, yn wr yr ail a'r drydedd filltir ac yn gweithredu'r gorchymyn mawr "car dy gymydog fel ti dy hyn".

Mae hyn yn amlwg yn y geiriau a glywais amdano yn ystod y dyddiau diwethaf. Mae Phyllis ei wraig annwyl, o'r un natur garedig ac mae'r ddau yn gweithio fel tîm.

Mae amryw wedi dweud wrthyf yn ddiweddar am yr amser yr oeddynt mewn profedigaeth ac fe fyddai Phyllis a Terry yn mynd i'w gweld gyda cerdyn cydymdeimlo ac yn eu cysuro yn annwyl iawn. Roeddynt i gyd yn dweud mor annwyl oedd y ddau.

Daeth Phyllis a Terry i Seion yn ystod 2009 ac ar ddydd Sul Tachwedd 1af cawsom y fraint o dderbyn y ddau yn aelodau newydd yn y capel. Cafodd Terry ei wahodd i fod yn organydd ac yn Adroddiad Blynyddol Seion am 2009 mae ei enw ar y rhestr o organyddion J. H. Thomas, Goronwy Lloyd Humphreys a Gwyn Tudor Owen. Erbyn hyn dim ond Goronwy sydd ar ôl.

Ar hyd y blynyddoedd mae Terry a Phyllis wedi cymeryd rhan fawr yng ngweithgareddu'r capel. Erbyn hyn roedd Terry yn swyddog gweithgar a ffyddlon iawn ac yn rhoi oriau o'i amser i'r gwaith ac fe gymerodd Phyllis y swydd o Drysorydd yr eglwys ar ôl marwolaeth Iris Hughes Jones yn 2018, ac y mae'n llenwi'r swydd yn ganmoliadwy iawn.

Gwaith Terry fel swyddog oedd edrych ar ôl yr ochor dechnegol o bethau a Gwyn Jones ein swyddog arall, sydd yn edrych ar ôl yr adeiladau, tu fewn a thu allan.

Roeddem yn ffodus iawn o gael dau swyddog mor arbenig. Braf oedd gweld y ddau yn ein cyfarch wrth ddrws y capel pob prynhawn Sul a cael sgwrs fach cyn mynd i fewn i'r capel.



*Terry O'Neill*

Cofiwn hefyd am yr oedfaon hapus pan oedd Terry yn chware'r organ a Phyllis, gyda'i llais melodaidd, hyfryd yn arwain y gan. Y Tîm eto. Dyma atgofion hapus a erys yn ein cof.

Mae colli Terry yn golled fawr i ni yn Seion ond y golled fwyaf, a cholled lem iawn yw colled Phyllis, mae wedi colli ei gŵr annwyl. Roedd y ddau mor hapus yng nghwmni ei gilydd a phob amser gyda'u gilydd. Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â Phyllis a'r teulu oll yn eu profedigaeth a boed iddynt i gyd dderbyn cysur a nerth yn ei hiraeth.

Cynhaliwyd angladd Terry yn amlosgfa Landican dydd Iau Medi 17. Roedd yn angladd preifat oherwydd y cyfyngiadau cofid, Roedd yr haul yn tywynu tu allan i'r amlosgfa a theimlwn ei bod yn fraint cael bod yn eu plith ar achlysur mor arbennig. Yr oedd y gwasanaeth yng ngofal y Parchedig Athro Dr D. Ben Rees a'r Parchedig Robert Parry. Gan fod Saeson ymhlith y galarwyr yr oedd y gwasanaeth yn ddwyieithog. Yr oedd y gweddïau a'r darlleniadau o Llyfr y Pregethwr 12: 1-7 a Ioan 14 1-6 :27 yng ngofal Y Parch Robert Parry a'r Deyrnged hyfryd a'r fendith yng ngofal Dr Rees, dau oedd yn feistri ar eu gwaith. Y gerddoriaeth wrth ddod i mewn oedd *Gwahoddiad*, un o fy hoff emynau, cafwyd *Dafydd y Garreg Wen* yn ystod y Traddodiant ac wrth i ni ymadael, Simffoni i'r organ rhif 3 Sain Saens. Er fod y trefniadau dan reolau Cofid yr oeddwn i, yn bersonnol yn teimlo naws hyfryd a chartrefol yn y gwasanaeth a phopeth yn rhedeg mor esmwyth. Ar ôl i ni fynd allan o'r capel rhoddwyd rhosyn coch prydferth i bob un ohonom er cof am Terry.

Fel arfer rwyf wedi bod mewn cysylliad ac aelodau Seion ac mae'r mwyarfrif yn dal mewn iechyd da. Mae Goronwy Humphreys wedi dod i ddiwedd y cwrs o driniaeth ac y mae yn teimlo yn well. O'r diwedd mae Trefor Roberts wedi cael dyddiad i'w lawdriniaeth, sef Medi 29. Byddwn yn meddwl amdano ac anfonwn ein dymuniadau gorau iddo. Mae Sarah Davies yn gwella ar ôl cyfnod o ddioddef poenau mawr yn ei choes a dymunwn wellad llwyr iddi ac anfonwn ein cofiwn ati. Dymunwn pob bendith arnoch chwi'r darllenwyr a cadwch yn ddiogel.

***Dymuna Phyllis ddiolch o galon am yr holl garedigrwydd a dderbyniodd ar farwolaeth annisgwyl Terry.***

## Cymdeithas Cymry Birkenhead

Pan ddaw cyfle i ni, Gymry Penbedw gyfarfod eto fel Cymdeithas, tristwch fydd na welwn ni mo wên dyner Terry i'n cyfarfod wrth y drws, neu ar y blaen. Roedd ef Phyllis, Mair, Gwyn ac Olwen bob amser yno o'n blaenau i baratoi ar gyfer y noson. Efallai byddai Terry yn brysur gyda'r meic, y sgrin, y technoleg, neu'r hen biano, ond roedd ganddo wên groesawus i bawb wrth ein henwau. Cofiaf un o'n aelodau hynaf yn dweud, "Mae pawb yn hoff o Terry, mae 'na annwyldeb ynddo." Ie, felly y cofiwn ein cyfaill croesawus, cerddor talentog, cymwynaswr parod, ac aelod ffyddlon a gweithgar yn ein cymdeithas. Gyda Phyllis trefnodd gyfarfodydd Nadolig, nosweithiau cwis a cherddorol pan fu'n ein swyno fel unawdydd ar y piano, neu yn cyfeilio i'w annwyl Phyllis. Pan ddaeth y "keyboard" newydd, 'roedd ei bleser yn amlwg - a'n canu ni yn well nag erioed!

Cofiaf am noson pan fu'm yn sgwrsio gyda Phyllis am ei bywyd cynnar ym Methesta, ysgol, eisteddfodau, hyforddi fel nyrs yn y C & A, a chyfarfod myfyriwr golygus ar y bws o Fangor, un noson gofiadwy. Un cwyn oedd gan y gŵr ifanc am ei lety, nad oedd piano yno *"the rest is history"*.

Clywsom yn y deyrnged ddydd ei angladd, amdano ef a'i briod, yn gweithio mewn llawer man o'r byd, yn mwynhau trafeilio, canu, cymdeithasu, a chyfarfod Cymry ar wasgar. Cawsant fyw bywyd i'w lawnder ar hyd y blynyddoedd. Ond dim ond ambell i gip a gawsom am waith gwyddonol Terry, a hynny wedi i ni ei holi. Dyna sy'n nodweddiad o'r gŵr diymhongar hwn. Roedd y galw mawr amdano yn ei waith proffesionol, yn brawf o'u fedusrwydd a'i lwyddiant yn ei alwedigaeth. Dysgodd Gymraeg gyda Phyllis ac mewn dosbarthiadau mewn llawer ardal – yn ddiweddarach yma gyda Tom a Iola. Yno roedd Terry yn ddysgwr eiddgar a chydwybodol, ac yn gymorth i eraill. Hoffai ymarfer yr iaith yn y Gymdeithas ac yn bersonol roeddem ni yn edmygu ei ddiwydrwydd a'r rhwyddineb.

Anodd credu i Terry ein gadael mor frawychus o sydyn - geidw wacter ymysg y Cylch Cymraeg. Cofiwn Phyllis yn ei hunigrwydd a'i galar, a gweddiwn am iddi deimlo nerth y *"llaw sy'n ei gafael er nas gwelir hi"*.

***Myfyrdod***

# *Ac o'r awr honno allan y cymerodd y disgybl hi i'w gartref - Efengyl Ioan 19: 27*

Am ryw wyth mlynedd bum yn byw gyda fy rhieni yn Tŷ Capel Bethel, Waenfawr a mwynheais fy hun yn fawr iawn. Credaf i lawer o weinidogion ddod yn gyfeillion. Fe wnes ffrindiau â llawer a barhaodd am oes ac er eu "colli' mae eu "henwau'n pererogli" o hyd. Cyfeillion fel Parchedigion Tom Nefyn, J.W. Jones, Conwy, William Morris ac R. O. G. Williams, Rhoslan. Dwn i ddim os ydych yr un fath a fi wrth fynd "yn ôl" i'r hen gartref. Cofio mynd yn ol i'r Tŷ Capel, oedd yn wag, a teimlo ryw awyrgylch. Dwn i ddim beth, ai dychymyg, nerfau, blinder beth?

Cyn mynd i'r coleg roeddwn yn gweithio dros dro i gwmni trydan MANWEB ac ar un adeg yn digwydd bod yn gweithio yn nhref Caernarfon. Roedd gan y cwmni is-offis yn Stryd Llyn y dre ac yno ar ddiwedd dydd roedd yr adroddiadau. Y pennaeth oedd J. H. Jones, blaenor yng Nghapel Beulah y dre, a dywedodd wrthyf fod neb llai na Parch R. O. G. Williams yn rhoi fel Darlith/Pregeth y noson honno ac fe es yno achos roedd gen i barch mawr i Robin Dinmael chwedl ninnau. Roedd Robin heb Eglwys oherwydd roedd yn crwydro'r Asia Leiaf ac yn gwneud teithiau Paul a Gwlad Groeg a Saith Eglwys Y Datguddiad. Y Bregeth? "CARTREF MAIR".

Cefndir yr adnod oedd hyn. Fe welodd yr Iesu ei fam wrth y Groes ac ddywedodd wrthi "Wele dy Fab" ac wrth ochr ei fam oedd Ioan a chymerodd hi i'w ofal fel dywed yr adnod. Wedi'r holl ffyrnigrwydd a'r siomedigaethau bu llawer o grwydro tan ac at diwedd ei hoes fe setlodd ym Meryem-Asa - Cartref Mair (mewn Twrceg) ond yn Gymraeg Dyffryn yr Eos, rai filltiroedd o Effesus. Erbyn hyn roedd y lle wedi newid ac yn edrych yn raenus gyda clwstwr o adeiladau ac roedd y tŷ fel petasai'n fan cysegredig. Er mai ISLAM yw y crefydd yn Nhwrci maent yn ôl pob golwg yn cydnabod bod Iesu Grist yn ŵr ddi-fai, yn Was Duw ac yn Air y Gwirionedd ac yn hyn mae Ei fam yn cael parch helaeth. Yn ôl Robin bod yna ryw ysbryd yn Nyffryn yr Eos a bair i'r Muslim a'r Cristion benlino gyda'u gilydd yn y sanctaidd le.

Yn niwedd ei bregeth roedd ganddo dinc o hiraeth gan iddo ddweud ei fod yn sgwenu bob dydd at ei fam ond erbyn i'r llythyr gyrraedd roedd hi wedi marw ond bod y llythyr ganddo o hyd heb ei hagor. "Llythyr Mam ydyw ac ni fedraf daflu i ffwrdd'. Petha rhyfedd fu mamau erioed a'u tiriondeb wedi siglo crud yr oesoedd. Wyddoch chi os oedd Ei fam Ef wedi byw yn Nyffryn yr Eos does rhyfedd i ryw emosiwn ddod drostoch, galwch ef unrhyw beth yr hoffwch. Pan sefais yno lle roedd hi wedi bod teimlwn berthynas agos â mam yr Iesu.

***Elwyn***


# PEARSON COLLINSON

## *TREFNWYR ANGLADDAU LERPWL*

GWASANAETH EFFEITHIOL -
CAPELI PREIFAT, CEIR MODUR HARDD, ATEB NOS A DYDD

**Prif Swyddfa**
87-91 Allerton Road, Liverpool L18 2DD
Ffôn: 0151 722 1514. Ffacs: 0151 737 1997

**Swyddfa arall**
255 Speke Road, Liverpool L25 0NN
Ffôn: 0151 448 0808

Os ydych ar ôl cysylltu gyda un o'r swyddfeydd am gael gair personol yna canolbwyntiwch ar 0151 722 1514

National Association of Funeral Directors
Est 1905

# SYLWADAU MAIR AR EI GYRFA WEDI YMDDEOL

Bu i Mair Roberts, Allerton, Lerpwl ymddeol ar ddiwedd mis Medi ar ôl gweithio am 47 mlynedd yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol fel nyrs. Merch ffarm a fagwyd ym mhentref Rhydymain yw Mair ac un o Gymry sydd wedi ymgartrefu yn Lerpwl erbyn hyn gyda'i gŵr Idris a'u teulu. Gofynnwyd i Mair gan Gadeirydd yr Angor Dr John G. Williams edrych yn ôl ar ei gyrfa a rhannu ei phrofiadau gyda darllenwyr 'Yr Angor'. Mae ei sylwadau yn ddiddorol.

**Ers pa bryd yr oeddech eisiau bod yn nyrs?**

Rhaid oedd penderfynu pan oeddwn yn y 6ed dosbarth yn Ysgol y Gader, Dolgellau, beth oedd y cam nesaf. Roedd y rhan fwyaf yr adeg honno, yn enwedig y merched, yn dewis mynd i ddysgu neu nyrsio a phenderfynais wneud cais am y ddau gwrs. Yn ystod fy nghyfnod yn y 6ed dosbarth byddwn yn mynd i Ysbyty Cymunedol Dolgellau, ddau ddiwrnod yr wythnos. Roeddwn yn helpu a chael profiad gwaith a mwynheais y profiad yn fawr, llawer gwell na gwers chwaraeon ar bnawn Mercher! Dyna, mae'n siŵr, lle plannwyd y syniad.

**Oedd yna aelod o'r teulu oedd wedi bod yn gweithio yn y maes iechyd o gwbl?**

Roedd mam wedi dechrau cwrs nyrsio. Yn ei dyddiau hi roedd rhaid cwblhau 'Part 1' ac yna 'Part 2' yr arholiad nyrsio ar y pryd sef SRN (State Registered Nurse). Dechreuodd ei chwrs yn ystod yr Ail Ryfel Byd yn Llangwyfan a chwblhau y rhan



***Mair yn barod i'r alwedigaeth – (yn 1978)***

gyntaf. Byddai wedi gorfod symud i Gaer i gwblhau yr ail rhan ond aeth ei mam yn wael iawn a rhoddodd y gorau i nyrsio i fynd adref i Dal y Llyn i ofalu amdani.

**Pam dod i Lerpwl i gael eich hyfforddi fel nyrs?**

Mi roeddwn wedi anfon ceisiadau allan ac wedi cael fy nerbyn i Goleg y Drindod i wneud cwrs Ymarfer Dysgu, ac i Ysbyty Frenhinol Caerdydd a'r Royal Infirmary yn Lerpwl i ddilyn cwrs SRN. Daeth llythyr i mi o Lerpwl yn cynnig y Cwrs Cyfun oedd yn cynnig hyfforddiant nyrsio oedolion a phlant dros gyfnod o 3 mlynedd a hanner ac felly byddwn yn gael y ddau gymhwyster, SRN a RSCN , ar y diwedd. Roedd y cwrs yma yn apelio yn fawr.

**Beth oedd eich hoff faes mewn nyrsio?**

Gofalu am gleifion difrifol wael, a'u gweld yn gwella. Bum yn gweithio ar y 'Nurse Bank' am flynyddoedd (swydd llenwi fewn) a byddai dim byd gwell gennyf na gofalu am glaf ar y ratio 1:1, cadw sylw gofalus iawn o'r claf ac ymateb i broblemau fel byddent yn codi. Bellach mae nhw yn cael llawer gwell gofal ar Unedau Gofal Dwys.

**Pa achlysur a achosodd embaras i chi?**

Dechreuais fy ngyrfa fel staff nyrs ar ward 6Y o 1979-1980, wedi cyfnod byr iawn ar ward 2B. Yn y pnawn ac ar ôl ward rownd yr arbenigwyr byddem fel nyrsys a doctoriaid yn cael paned o de yn swyddfa y Sister.Un pnawn, a finnau yn gyfrifol ar y sifft hwyr, clywais Miss Bublitz (y *Senior Nursing Officer*) yn cyrraedd y ward. Ychydig wedyn clywais sŵn clirio a thacluso o swyddfa y Sister! Dyma hi ataf ac roeddwn yn disgwyl cael pryd o dafod, ond cwbl ddywedodd oedd i ni glirio ar ein holau tro nesaf. Gallai fod yn llym iawn ei thafod ond roedd hi yn annwyl iawn tuag atom ni ar 6Y, efallai am ein bod yn griw mor ifanc. Roedd fy ffrindiau, oedd yn ei hadnabod o ddyddiau ysbyty'r Southern yn methu credu na chefais bryd o dafod! Clirio fuodd wedyn bob bore a phnawn.

Rhyw 6 wythnos yn ôl, ac wedi gorffen shifft nos, roeddwn ar Prescot Street yn chwilio am Idris i gael lifft adref. Agorais drws y car, edrych ar yr amser ac yn mynd i ddweud 'O ni yn meddwl ei bod yn hwyrach' a dyma'r wyneb yn troi ataf a dim un Idris oedd yn wynebu – car anghywir! Dwn i ddim a ddaru fi ymddiheuro yn fy embaras!

**Beth yw y darganfyddiad pwysicach oeddech wedi gweld yn eich gyrfa?**

• Y driniaeth o sepsis, sef haint sydd wedi ymledu i'r gwaed. Mae sepsis yn parhau i ladd llawer gormod o bobl. Bellach mae y Llwybr Sepsis (*Sepsis Pathway*) mewn lle i ni ei ddilyn oherwydd os ydym yn medru ymateb yn fuan, o fewn yr awr gyntaf, mae'r rhagolygon yn llawer gwell.

• Y driniaeth o boen mewn cleifion gyda chancr lliniarol. Dyddiau yma mae'r holl gwaith yn cael ei adolygu gan dîm Gofal Lliniarol yr Ysbyty sydd yn gweld y cleifion llawer cynt nag oeddym yn ei weud o'r blaen . Mae pob claf yn cael ei drin mewn ffordd gyson ac mae canlyniadau y gwasanaeth lliniarol yn well.

**A oes atgofion melys a chwerw yn eich gyrfa**

Mae'r profiadau dwys yn rhai trist, rhieni yn colli plant a phobl ifanc ar y ward Hematoleg. Mae un achos yn aros yn y cof, mynd a thad at wely ei fab yn ei ugeiniau cynnar, wedi cael diagnosis o diwmor ar yr ymennydd, a'r tad yn ei ddagrau wrth

y gwely. Heddiw byddwn yn gallu delio gyda'r sefyllfa yn well ond yn 24 mlwydd oed roedd yn anodd iawn.

Fy atgofion melys ydi cael y fraint o weithio mewn tîm yn enwedig tîm 6Y ar y dechrau a ESAU (*Emergencey Surgical Admissions Unit*) ar y diwedd. Dim byd gwell na chyd dynnu, colli dagrau, gweithio'n galed a chael llawer iawn o hwyl a thynnu coes. Dwi yn meddwl fy mod wedi chwerthin ar bron bob shifft, maen falm i'r galon.

**Beth yw y newid mwyaf mewn nyrsio rydych wedi ei weld yn ystod eich gyrfa?**

- Diffyg parch ac ymddygiad rhai cleifion a'u teuluoedd tuag at staff. Byddai'r claf yn arfer gwneud beth fyddech yn ei ofyn iddynt, bellach maent yn mynnu hyn ar llall ond dwi'n falch o ddweud lleiafrif ydynt.
- Yr amser mae claf i fewn yn yr ysbyty wedi lleihau. Neb bellach yn aros i mewn i gael tynnu pwythau wedi llawdriniaeth.
- Llawer iawn mwy cyfeillgar - cyfeirio at bawb gyda'i henw cyntaf.
- Prysurdeb y gwaith, bellach dydi gwely ddim yn aros yn wag am fwy na awr. Ar ddechrau fy ngyrfa gallai gwely fod yn wag am ddyddiau.
- Datblygiadau mawr ym myd meddygaeth er lles y claf. Bellach mae cleifion yn goroesi llawer iawn o anhwylderau na fyddent wedi, pan o ni yn dechrau nyrsio.

**Petai chi ddim yn nyrs pa waith fuasech wedi hoffi ei gwneud?**

Allaf ddim meddwl am swydd arall yr hoffwn wneud. Ar ddechrau y cyfnod Cofid bu raid i mi fy hunan ynysu o fis Mawrth i Gorffennaf. Wedi dychwelyd i fy ngwaith ym mis Awst sylweddolais gymaint yr oeddwn wedi colli fy ngwaith gofalu am gleifion. Roedd yn cadarnhau gymaint dwi wedi mwynhau fy nghyfnod nyrsio yn fawr, fawr iawn.



***Ymddeol ynghanol Argyfwng Covid-19 (Medi 2019)***

# COVID 19

Firws angeuol hardd yw'r 'corona'
fel pêl ping pong yn orchudd o dorcha!

Stwffia drwy ffroena' a llygad llaith
ymlaen ymlaen ar ei bydol daith

Ceuwyd yr henoed – fel cwn mewn cwt
cedwch o'r golwg, ymdopiwch yn dwt.

O dipyn i beth bydd y wlad yn cau'i lawr
â'r firws fel hyn, beth nawr Prydain Fawr?

mwy na'r Eidal, Almaen a hefyd Sbaen
y gwledydd a'u clwydi dan glo a tsiaen?

Dim hamdden mwyach na chaeau o sbort
dim socer, na rygbi o unrhyw siort!

Mae'r awdurdodau – a bod yn deg
fel 'c'logod y domen – clochdar neu rheg!

Mae taflu arian dychrynllyd i'r gad
(llywodraeth newydd am gadw eu stad!)

Am faint pery y fadwch a'r stomp
Pa hyd bydd y firws yn dawnsio'i romp?

Ond 'rhoswch funudyn – mae eto dro
i'r rhyfel weladwy anweladwy'r fro…

Capeli…ysgolion i gyd yn cau'i lawr –
rhencian dannedd y brodyr o gornel Sêt Fawr.

Dim arholiadau Lefel A na 'G S E'
'ond a'i mater bywyd yw ennill degree?"

Dim allor i dderbyn sacrament hedd
dwylo'n ddisinffectant o'r byd i'r bedd.

Ond, meddyliais o ddifri'r paderau fu
am Ddiwygiad arall i lenwi y Tŷ!

Onid rhan yw hyn o efengyl cariad
a chyfle'i ail gychwyn rôl Atgyfodiad?

-rhoi heibio ein hunanoldebau bas
llenwi ein byw efo trugaredd a gras?

Mae un peth yn sicr ar derfyn y sioe
fydd fory ein byd ddim tebyg i ddoe!

Byw yw yr Arglwydd – er maint y trwbwl
y byd sydd o'i le gyda'i safonau dwbwl.

Mae digon ar gyfer angen bob un
ond fod pobol yn farus yn stompio'r llun.

Pam beio Duw – a rhoi arno pob bai
heb weled o'n grym ein traed o glai?

***Norman Closs, Carmel, ger Treffynnon.***

***Cyflwyno***

# IOLO MORGANWG

### gan y Dr. Pat Williams

Bûm yn y Bont Faen yn ddiweddar a deuthum ar draws plac i Edward Williams neu Iolo Morganwg, fel y galwai ei hun, yn nodi'r man lle y gwerthai ei lyfrau. Saer maen oedd Iolo wrth ei alwedigaeth ond er na chafodd ddim addysg ffurfiol, roedd yn fwy o awdurdod ar lenyddiaeth Gymraeg gynnar na neb o'i gyfoeswyr.

Yn 1773 aeth i Lundain ac yn y fan honno daeth i gysylltiad â'r Cymmrodorion a'r Gwyneddigion, a thrwy'r cymdeithasau hyn cafodd gyfle i ddarllen llawysgrifau Cymraeg cynnar. Gan nad oedd neb yn ddigon gwybodus i'w herio, gallai wneud honiadau afradlon am eu cynnwys. Dywedodd ei fod wedi cael hyd i ryw gerddi gan fardd o'r enw Rhys Goch ap Ricard – cerddi o safon ardderchog, ond Iolo ei hun oedd wedi eu cyfansoddi. Dywedodd hefyd ei fod wedi darganfod nifer o gerddi gan Dafydd ap Gwilym a chan fod ysgolheictod Cymraeg mor drychinebus o isel yn y 18 ganrif, derbyniwyd hwy fel gwaith dilys y bardd yr honnai Iolo oedd wedi eu cyfansoddi.

Gan iddo lwyddo mor dda wrth ffugio'r farddoniaeth, gellir gweld sut yr oedd yn gallu creu Gorsedd Beirdd Ynys Prydain. Dywedodd fod yr Orsedd yn gysylltiedig â Sir Forgannwg yn anad unlle arall ond mai dau aelod yn unig oedd ar ôl bellach, sef ef ei hun a rhyw Edward Evans. Roeddent yn unigryw ymysg y beirdd, meddai, am eu bod wedi derbyn hyfforddiant mewn math arbennig o farddoniaeth a oedd yn mynd yn ôl i



gyfnod y derwyddon.

Yn 1792 datgelodd Iolo Morganwg y dirgelion barddol hyn i Gymdeithas y Gwyneddigion - a honnodd mai ef bellach oedd yr unig aelod byw o Orsedd y Beirdd. Credent ef a chynhaliwyd y cyfarfyddiad cyntaf o Orsedd y Beirdd ar Primrose Hill yn Llundain ar yr 21ain o fis Mehefin 1792 (hirddydd haf). Erbyn hyn mae cofgolofn wedi ei chodi iddo yn y fan honno.

Mae rhai pobl yn ddilornus o'r Orsedd am ei bod yn ffrwyth dychymyng Iolo Morganwg ac yn dweud y dylid cael gwared ohoni. Ond dydi hi ddim yn ffug i gyd – mae 'na ryw rith o wirionedd yn yr honiadau i gyd a dyna oedd wedi ei gwneud hi mor anodd i adnabod datganiadau Iolo fel ffugiadau. *Roedd* yna 24 mesur oedd yn cael eu dysgu yn yr ysgolion barddol. *Roedd* yna dderwyddon - mae Iwl Cesar wedi ysgrifennu amdanynt ac er nad oedd yn eu hoffi na'u canmol ryw lawer, cyfaddefodd mai hwy oedd dysgedigion y genedl, ac mai hwy oedd yn sefyll yn erbyn gormes y Rhufeiniaid. Hefyd roedd na dri math o feirdd yn cael eu disgrifo yn y cyfreithiau: y pencerdd, y bardd teulu a'r cerddor - ac mae 'na dri math o feirdd yng Ngorsedd Ynys Prydain. Mae'r cyfreithiau hefyd yn disgrifio'r pencerdd fel 'bardd wedi ennill cadair.'

Yn wahanol i awduron sy'n euog o lên-ladrad, drwy roi eu henwau eu hunain ar gynnyrch rhywun arall er budd personol, roedd Iolo yn tadogi ei waith ei hun ar rywun arall, er ei fod yn amlwg yn fardd ardderchog. Mae'n anodd deall beth oedd yn ei gymhell i wneud y ffugiadau hyn. Gwladgarwch neu hyd yn oed frogarwch, efallai? Roedd Iolo yn eiddigeddus iawn o ffyniant llenyddol Gwynedd ac yn awyddus i greu gorffennol i'w sir enedigol sef Morgannwg a fyddai llawn mor ddisglair os nad yn ddisgleiriach nag eiddo Gwynedd.

Efallai fod Magnus Magnusson, y darlledwr enwog a fu'n cyflwyno *Mastermind* am flynyddoedd lawer, wedi rhoi ei fys ar broblem Iolo Morganwg. Dywedodd fod ei wlad ei hun, Ynys yr Iâ, wedi bod o dan lywodraeth Norwy a Denmarc am flynyddoedd a'r unig beth oedd yn cadw ei hunaniaeth genedlaethol oedd ei hiaith a'i thraddodiadau diwylliannol a llenyddol. Er ei fod yn beirniadu diffyg parch Iolo at ysgolheictod, roedd yn cydymdeimlo â'i gymhellion i greu gorffennol gwych i'w wlad a'i fro enedigol.




*Plac Iolo Morganwg ar Bryn y Briallu, Llundain*

## Selwyn Lloyd
### (1904-1978)

Gwleidydd a anwyd i deulu Eingl-Gymreig a cheir ei hanes yn gyflawn yn D. R. Thorpe, *Selwyn Lloyd* (Cape, 1989). Trigai Selwyn Lloyd yn Hoylake a meddyliai y byd o Gilgwri. Dywedodd Harold Macmillan am y Wirral: *'a funny place to come from!'* Cyfreithiwr yn Lerpwl oedd Lloyd cyn mynd i'r senedd. Ond nid yn yr un gynghrair ag F. E. Smith, Hartley Shawcross neu David Maxwell Fyfe.

Dywed Thorpe ar dudalen 276 o'i gofiant:

*The one surprising thing that the Bar did for him however, was to make him a determined opponent of capital punishment. On that he never subsequently wavered.*

# CYMRY LERPWL A'R FASNACH MEWN CAETHWEISION

Gyda'r protestiadau diweddar dros *Black Lives Matter,* mae'n werth cnoi cil ar ran Cymry yn hyn i gyd. Roedd Lerpwl yn y ddeunawfed ganrif yn pesgi ar gaethwasiaeth, a llongau'n mynd nôl ac ymlaen rhwng Lerpwl, Affrica a'r Amerig. Roedd yn rhan normal o fywyd y porthladd fel y gwelir mewn llythyr didaro gan Siôn Morris, un o Forrisiaid Môn, am ei ymdrechion yn 1739 i werthu yn y ddinas 'a black lad about 16 years old'. Roedd Owen Prichard, Arglwydd Faer Lerpwl yn 1744-45, yntau hefyd o Fôn a chyfaill triw i Goronwy Owen, curad Walton, hefyd â'i law yn y diwydiant. A thystiolaeth bellach i'r Cymry fod wrthi yw bod neb llai na John Elias yn edliw i sasiwn y Methodistiaid Calfinaidd Cymreig yn Lerpwl yn 1806 'fod rhai o'r brodyr yn gweithio ar y Llongau sydd yn y *trade* melltigedig hwn, ïe, un o honynt yn gweithio Cadwyni i'w rhoddi am y caethion truain'. Cyn hynny, roedd arweinwyr Pall Mall wedi bygwth ysgymuno unrhyw aelod oedd yn gweithio ar y llongau hyn. Rhaid wynebu felly fod gan y Cymry hefyd gyfrifoldeb am gaethwasiaeth.

Ond mae gwirionedd arall am y Cymry yn Lerpwl, sef nid hwy at ei gilydd oedd yn rheoli'r diwydiant. Mewn sampl o gaethlongau'r ddinas yn 1798-1807, hanai 6% o'r morwyr cyffredin o Gymru, ond cyn lleied â 2.5% o'r swyddogion. Heblaw Owen Prichard, prin iawn yw'r perchnogion a oedd yn Gymry.

Y rheswm am hyn oedd bod llawer o'r Cymry tua gwaelod yr ysgol gymdeithasol. Nid oedd ganddynt y cyfalaf angenrheidiol i fuddsoddi mewn mentrau busnes uchelgeisiol a chostus, ac at ei gilydd nid oedd ganddynt y cysylltiadau 'chwaith. Mae'n diddorol cael golwg yn y cyswllt hwn ar y *Report on the State of the Irish Poor in Great Britain*, adroddiad seneddol a gyhoeddwyd yn 1836 sy'n astudio hanes y Gwyddelod ym Mhrydain. Wrth drafod Lerpwl (a dim ond yn Lerpwl hyd y gwelaf), ceir sôn hefyd am y Cymry.

Ceir pethau yn yr adroddiad megis: *'The Irish (also the Welsh) send out their children to beg, and require them to get a certain sum in the day, generally 6d., except on market day, when they require 18d.'* Meddai tyst arall, '*It would be a great advantage to the town to get rid of them, both Welsh and Irish, and prevent any more coming.*' Roedd y Cymry yn wynebu gelyniaeth fel mewnfudwyr ymhob oes.

Mae'r adroddiad yn trafod y dociau lle roedd llawer o'r Cymry'n gweithio, *'All the heavy work of Liverpool is done by the Irish, and all the dock-cleaning and muddy work by the Welsh.'* Dweud arwyddocaol oherwydd yn ôl sawl Cymro hefyd, Cymry oedd navvies y dociau. Yn Hanes Methodistiaeth Liverpool, dyfynnir Corfannydd, Cymro o'r ail genhedlaeth, yn haeru 'iddo glywed "gan yr hen bobl mai Cymry oedd braidd yr oll a wnaeth y dociau hyn."'

Mae llawer o drafod ar Gymry Lerpwl Oes Fictoria fel dosbarth canol cefnog. Cywir hynny. Dosbarth canol Cymraeg Lerpwl yw'r un pwysicaf yn hanes y Cymry fel cenedl. Ond daeth llawer o Gymry i Lerpwl, yn enwedig yn y dyddiau cynnar, yn fewnfudwyr tlawd. Byw yn y slymiau yn 'Welsh Town' ger Pall Mall, a gweithio yn y dociau. Dyna fuasai hanes nifer helaeth. Roedd y Cymry yn symud y mwd fel gallai'r llongau fynd i'r môr. Roeddynt yn elwa ar y cyfoeth a ddaeth i Lerpwl yn sgil y gaethfasnach, ond nid i'r un raddau â'r Saeson a oedd yn berchnogion ac yn swyddogion ar y llongau hyn.

***Simon Brooks***



---

## MERSEYSIDE WELSH HERITAGE SOCIETY

# *APPEAL 2020 AND 2021*

***prepared by Dr. D. B. Rees (Chairman/Author), Rachel Gooding (Treasurer) and Dr. Arthur Thomas (Secretary)***

**LIVERPOOL WELSH: A REMARKABLE HISTORY.**

Gwasg Y Lolfa, Talybont has given us the good news that the volume *Liverpool Welsh: A Remarkable History* will be in the booksellers summer 2021, so we have time to achieve the goal of £7,500 by 1 May, 2021.
We are so grateful for List 7 as we had received by 30 September the sum of £2,465. Every donation will be gratefully received and acknowledged in the book by inserting your name and a gift will ensure you a copy of a hard back volume. It will be signed and you will be invited to the launching of the book in June 2021.

**List one: £550; List two: £450; List 3: £200; List 4: £420; List 5: £510; List 6: £185; List 7: £150**

## LIST Seven (1/8/2020 i 30/9/2020)

1) Eirlys and W. Meirion Evans, Allerton, Liverpool, the sum of ........................................................£50
2) Alun Owen, Burscough, near Ormskirk L40, the sum of ....£50
3) Henry Pearson, Heswall, Wirral the sum of .......................£50

**Total / Cyfanswm ................................£150**

So we have reached the sum of £2,465

***Please assist as soon as it is possible for with your help we will get to our goal of £7,500***
***Can you please send your donations to***
***Merseyside Welsh Heritage Society /***
***Cymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi***
***c/o 32 Garth Drive, Liverpool L18 6HW.***

## Proffwydoliaethau Beiblaidd

# *"OND stori ar gyfer amser i ddod fydd honno"*

Ym Mis Tachwedd y llynedd, ymddangosodd erthygl o'm heiddo yn *Yr Angor*, papur Cymry Glannau Mersi a Manceinion. Ufuddhad oedd yr erthygl i gais caredig Mrs Mair Rees Jones, Seion, Penbedw, am '*bwt*' o fywgraffiad gan fy mod yn pregethu rhyw chwe pnawn Sui y flwyddyn yn Seion. Y teitl rhoddais i'r erthygl oedd ***"O'r Graig y'm Naddwyd".***

Yn eglwys enwog Ffordd Catrin, Plymouth, Dyfnaint, ble 'roeddwn yn gweinidogaethu ar y pryd, ac o ble yr hwyliodd y "Tadau Pereriniol" i'r Unol Daleithiau yn 1620, y dechreuodd fy niddordeb mewn Proffwydoliaeth Beiblaidd fagu adenydd. Clywais y diweddar Barch Arthur Neil, gweinidog Bedyddwyr Westward Ho! yn pregethu yn ein Cyrddau Mawr. Pregethodd gydag awdurdod a chlaerineb a'r thema'r 'AiIddyfodiad' gan gymryd detholiad o adnodau o'r bedwaredd bennod ar hugain o Efengyl Mathew yn destun.

Yn ystod dyddiau'r coleg ym Mangor, cyfeiriwyd at Broffwydoliaeth Beiblaidd ac Escatoleg wrth *"fynd heibio"* fel petai, heb roi unrhyw sylw arbennig i'r pynciau. Penderfynais wybod mwy am yr hyn a ddysg y Beibl am "arwyddion yr amserau". Bu'r bregeth y noson honno a'r ymchwiliad pellach yn fodd i beri i mi, o argyhoeddiad dwfn, personol a gonest, newid rhai o'm daliadau Beiblaidd. Gorffenais yr erthygl gyda'r geiriau – ***"OND stori ar gyfer amser i ddod fydd honno!"***

Daeth yr amser hwnnw pan dderbyniais ganiad ffôn gan Mrs Mair Rees Jones yn holi am ***"y stori ar gyfer amser i ddod".*** Y stori, wrth gwrs, yw'r un sy'n ymwneud â phroffwydoliaeth Beiblaidd. Gwybod mwy am broffwydoliaeth ac escatoleg barodd i mi newid rhai o'm daliadau Beiblaidd. Pryd glywsoch chi bregeth yn ddiweddar ar Dragwyddoldeb, y Nefoedd, Uffern ac Amserau'r Diwedd?

Pan gyfarfu gweinidog ifanc a'i gyn-athro diwinyddol fe'i hysbysodd nad oedd yn pregethu ar broffwydoliaeth beiblaidd gan fod ***"…proffwydoliaeth yn gwrthdynnu sylw pobl oddi ar y presennol."*** Atebodd ei athro, ***"Wel, mae cryn dipyn o wrthdyniad felly yn yr Ysgrythurau!"***

Ydi proffwydoliaeth mor bwysig a hynny? Pa ddiben sydd i astudio proffwydoliaeth Beiblaidd os na fedrwn amseru ail-ddyfodiad Crist yn gywir? Yn anffortunus, bu llawer o lyfrau proffwydol y Beibl ynghyd â Llyfr Datguddiad yn guddiedig a dieithr i lawer o Gristnogion. Yn aml, gorchuddiwyd tudalennau proffwydoliaeth mewn dirgelwch a chamddealltwriaeth. Pam osgoi astudio proffwydoliaeth? Pam bod cyn lleied o ddysgu a phregethu ar y pwnc? Yn anffodus, cyfeirio at broffwydoliaeth ***"wrth fynd heibio"*** yn unig wna ambell i goleg Beiblaidd neu athrofa diwinyddol bellach. Cafodd llawer o fyfyrwyr eu dysgu i osgoi'r pwnc, fel y pla, oherwydd tybiwyd y gallai fod yn ddadleuol, peri rhwyg, neu fygwth sefydlogrwydd cynulleidfa. Bernir ei bod yn fwy priodol a diogel cadw ffocws yr aelodau ar waith yr eglwys yn y byd sydd ohoni, gan adael i'r byd a ddaw ofalu am ei hunan. Onid methu a ***"....chyhoeddi holl arfaeth Duw"*** fyddai hynny? (Actau 20:27). Mae'n drist dweud y gorfodir i'r mwyafrif o gredinwyr ddysgu am arwyddion yr amserau a phroffwydoliaeth Beiblaidd o ffynhonnau allanol. 'Chydig iawn a ŵyr heddiw faint o'r Beibl sy'n broffwydol ei natur!

Meddyliwch am amlygrwydd proffwydoliaeth yn y Beibl. Wyddoch chi bod 3180 gyfeiriadau at Ailddyfodiad Crist yn y 216 o benodau'r Testamewnt Newydd? Pe bai'r paragraffau sy'n ymwneud â phroffwydoliaeth yn y Testament Newydd yn cael eu dileu, byddai'n rhaid dileu un allan o bob deg adnod ar hugain. Allan o'r 27 o lyfrau'r Testament Newydd sy'n cyfeirio at broffwydoliaeth, byddai'n rhaid dileu 23 ohonynt. Am bob proffwydoliaeth sy'n sôn am eni Crist, ceir wyth yn sôn am Ei Ail-ddyfodiad! Eto, faint o ddysgu a phregethu gawn ni heddiw ar yr Ail-ddyfodiad?

Mewn gwirionedd, cafodd canran o 27 o'r Beibl ei ysgrifennu'n broffwydol, canran sy'n gyfartal â maint y Testament Newydd i gyd. Dyma'r ffeithiau sy'n gwneud proffwydoliaeth Beiblaidd yn bwnc tyngedfennol i'r rhai sydd am ddeall Gair Duw o ddifrif ***"... oherwydd ni ddaeth yr un broffwydoliaeth erioed trwy ewyllys ddynol; pobl oeddent a lefarodd air oddi wrth Dduw wrth gael eu hysgogi gan yr Ysbryd Glan."*** (2 Pedr 1 :21). O'r 39 o lyfrau'r Hen Destament mae 17 yn lyfrau proffwydol. Mae'r llyfrau o Eseia hyd Malachi yn lyfrau proffwydol, ynghyd â'r Salmau, a holl Lyfr Datguddiad.

Pe baem o ddifrif ynglŷn â phroffwydoliaeth Beiblaidd, byddai'n effeithio ar y ffordd 'rydym yn byw ac yn rhoi min ar ein dymuniad i dystio i eraill. Proffwydoliaeth yw pwer cynhenid efengylu.

O gael cipolwg ar y dyfodol trwy broffwydoliaeth, cawn wybod sut i fyw yn y presennol. Dyna'i bwysigrwydd. Nis ymarferiad academaidd yn unig yw proffwydoliaeth; mae'n ymarferol i fywyd pob dydd. Yn ôl Datguddiad 1:3 mae bendith i bawb sy'n astudio Gair proffwydol Duw. Datguddiad 1:3 yw'r cyntaf o saith o fendithion sydd yn y llyfr. Fedrwch chi restru'r gweddill?

***E. Gwynne Parry,***
***Cilgwri.***

# CORNEL Y TRYSORYDD

## TACHWEDD 2020



| | |
|---|---|
| Miss Carys Jones, Wavertree | £20.00 |
| Mr a Mrs Bryan Jones, Bae Colwyn | £20.00 |
| Mr John Thomas, Allerton | £20.00 |
| Mr a Mrs Huw Davies, Rhuthun | £25.00 |
| **Cyfanswm** | **£85.00** |

**Roderick Owen (Trysorydd)**




*Burscough,*
*ger Orsmkirk,*
*Sir Gaerhirfryn*
*11 Medi 2020*

Annwyl Dr Rees,

Dim ond gair byr i ddiolch am y rhifyn diwethaf o'r *Angor*, sef rhifyn Hydref 2020. Hefyd i obeithio eich bod chwi a'r holl deulu yn cadw mewn iechyd da ac yn glir o'r feirws ofnadwy yma sydd yn cyfyngu pawb o'r holl fyd o gael bywyd arferol. Gobeithio bydd brechlyn ar gael yn fuan inni oll fynd yn ôl i gael bywyd arferol unwaith eto.


Yr eiddoch yn ddiffuant,

*Alun Owen*

Darn o Hunangofiant

# MYND ADRA'

gan E. Brian Thomas



*Brian Thomas*

'Rwy'n enedigol o bentref Penmacho, yno y gwelais olau dydd yn y flwyddyn 1936. Wrth synfyfyrio ym mis Medi 2020, meddyliais am y dywediad, "Peidiwch byth a mynd yn ôl." Y meddylfryd ydyw mae cael eich siomi a wnewch am nad ydyw y bröydd na'r bobl na'r gwrthrychau byth yr un fath. Ond rhinwedd rhyfedd ydyw 'hiraeth'. Mae byth a beunydd yn ein tynnu yn ôl i ddigwyddiadau'r gorffennol Mae dywediadau, digwyddiadau a darlleniadau a'u tebyg weithiau yn taro deg, ac yn yn peri i ddigwyddiadau o'r gorffenol lifo 'nôl i'n meddwl ac ein ysgogi i gofio a weithiau i hiraethu. Maent hefyd yn dweud mai y gallu gorau sydd gennym fel dynoliaeth yw y gallu i anghofio rhai pethau yn llwyr. Felly yn y pen draw gallu cofio diffygiol iawn sydd gennym, cofio y digwyddiadau pleserus ac anghofio bethau diflas. Anghofio pethau briwiedig neu pethau sy'n ein gwneud inni fod yn anghyfforddus, a chofio y dywediadau a'r gweithrediadau sydd yn ein gwneud yn falch neu yn hunan gyfiawn, neu yn gwneud inni wenu wrth y cofio.

Beth yw'r peth cyntaf a ydych yn gofio yn eich bywyd? Y peth cyntaf i mi gofio yw bwyta Hufen Iâ ar bric. 'Roedd fy modryb, Anti Hilda yn cadw'r Llythyrdy yn y pentref ac 'rwy'n cofio cerdded allan o'r siop yn cario lwmp o Hufen Iâ ar bric, oedd wedi cael ei dynnu o focs glas tywyll a 'Lyons Maid' yn ysgrifen arno. Cefais fy ngeni yn y flwyddyn 1936, ac 'roedd yr Ail Ryfel Byd Mawr yn dechreu yn 1939, pan ddiflannodd pethau angenrheidiol bleserus fel Hufen Ia allan o'n cof, nes a daethant yn ôl i'n meddiant ym 1946. Dyna'r cof cyntaf sydd gennyf y gallaf gofio amdano.

Wedyn, cofiaf ddyddiau pan fyddwn yn mynd i'r ysgol i chwarae ar y ceffyl pren ac yn y tywod. 'Roedd hynny cyn i mi ddechra'r Ysgol yn swyddogol yn bedair oed. Dyna braf, 'roedd 'na groeso inni fynd yno yn answyddogol, felly pan ddaeth hi'n amser inni fynd yno yn llawn amser, 'doedd na ddim ofn na phetrusder am ddechreu'r ysgol. Cofio hefyd nad oedd cinio poeth ar gael yno tan tua 1943-4 a bod angen 'sandwiches' hefo ni, a bod yna botel fach, trydydd rhan o beint o lefrith ar gael inni bob dydd. Amser hynod o braf wrth feddwl amdano oedd y cyfnod yma i mi. Cofio dim am flinderau ac ofnau y cyfnod cythryblus yma o'r rhyfel. Cofio cael 'neffro a mynd i fryn wrth ymyl y tŷ i weld Lerpwl yn cael ei fomio, a gweld y gorwel yn wenfflam o liw tân coch yng nghanol tywyllwch y nos.

Cofio fy Nhad, oedd wedi bod yn y y Rhyfel Mawr cyntaf, yn gweithio yn yr 'R.O.C.', 'Y Royal Observer Corps', ac yn mynd i weithio'r nos i ben Mynydd Parc i rhyw gwt, i wylio allan am awyrennau'r gelyn. Cofio cardiau ganddo a llun awyrennau y 'Jyrmans' arnynt ac yntau yn gorfod eu hadnabod, rhag ofn y byddai yn eu gweld yn yr awyr. Amser cyffrous wedyn oedd gweld tanciau mawr yn mynd am Drawsfynydd i fod yn rhan o'r dysgu sut i ryfela. 'Roeddwn yn byw adra, ac yn mynd yn ôl adra o bob man a gwybod bod pob dim yn iawn a phawb yn saff. Cofio yn dda wedyn, mynd i Dŷ Mawr Wybrnant gyda Nhad a'm brawd i weld Yncl Ifan ac Anti Edith, oedd yn byw yn Nhŷ yr enwog Esgob William Morgan yr adeg hynny, amser cyn cael ei adnewyddu fel tŷ o'r cyfnod Tuduraidd fel y mae heddiw, a chofio dod yn ôl dros y mynydd, a hithau wedi tywyllu, yn hyll o dywyll, fel bol buwch ddu, a minnau ofn nos bron a chrio a'm tad yn gafael yn dynn yn fy llaw. Newidiodd yr ofn yn deimlad o fod yn hollol saff, nes cyrraedd 'nôl adref i'n cartref cynnes clyd.



*Penmachno*

*(i'w barhau)*

***Ariennir Yr Angor yn rhannol gan Lywodraeth Cymru***

CYMRAEG

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor yr Angor, Heathfield Road, Lerpwl 15.*
*Cysodwyd ac argraffwyd gan*
*Aeron Jones, Ty'n y Cefn, Llanuwchllyn,*
*Y Bala, Gwynedd LL23 7UH*
*07729 960484*

# PARADWYS CYMRU

Ar y dde dyma olygfa nodweddiadol o hen Sir Drefaldwyn yng Nghanolbarth Cymru, sydd bellach yn rhan o Sir Powys, tiriogaeth a enwyd ar ôl Tywysogaeth Powys, oedd mor bwysig yn y Canol Oesoedd. Nodweddir Sir Drefaldwyn gan ffermydd sydd yn cael gofal amdanynt.







*Islwyn Ffowc Elis*

Llenor a gostrelodd ofal ffermwyr Sir Drefaldwyn am eu tir yw Islwyn Ffowc Elis. Bu'n Weinidog yn Llanfair Caereinion am gyfnod yn y pumdegau ac yn ystod ei arhosiad yn y cylch hwnnw fe gafodd ddeunydd ar gyfer ei nofel gyntaf, ***Cysgod y Cryman a***c wedi honno, ***Yn ôl i Leifior***, dwy nofel a wnaeth argraff arbennig ar lawer ohonom yn y pumdegau.

Ceisiodd yr awdur lunio drama gyfres ar gyfer cwmni teledu annibynnol ar ddechrau y nawdegau y ganrif ddiwethaf. Y bwriad oedd edrych ar gymeriadau'r nofel yn Sir Drefaldwyn ddeugain mlynedd yn ddiweddarach. Ni lwyddodd cystal â'r tro cyntaf ond yr oedd yr arbrawf yn werth ei weld.







*Mae llun y fferm hon yn atgoffa y gwyliwr o fferm Lleifior, sef fferm Harri Vaughan yn y nofelau*